**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Janet Kelly 01352 702301
janet.kelly@flintshire.gov.uk

At: Cyng Sam Swash (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Carol Ellis, Hilary McGuill, Mel Buckley, Tina Claydon, Gladys Healey, Andy Hughes, Fran Lister, Dave Mackie, Roz Mansell, Billy Mullin a Debbie Owen.

31 Mai 2024

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**DYDD IAU, 6ED MEHEFIN, 2024 2.00 PM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

### 1 **PENODI CADEIRYDD**

**Pwrpas:** Yn ystod y cyfarfod blynyddol penderfynodd y Cyngor y bydd y Grŵp Llais y Bobl Sir y Fflint yn cadeirio'r cyfarfod hwn. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor mai'r Cynghorydd Sam Swash yw Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

### 2 **PENODI IS-GADEIRYDD**

**Pwrpas:** Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

### 3 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 4 **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

### 5 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 10)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 18 Ionawr a 9 Chwefror 2024.

### 6 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU** (Tudalennau 11 - 20)

Adroddiad Hwylusydd Arolygu a Chraffu

**Pwrpas:** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg & Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

### 7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELU OEDOLION A PHLANT** (Tudalennau 21 - 36)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** Rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn perthynas â darpariaeth Diogelu Oedolion a Phlant ar y cyd o fewn ffiniau'r sir.

8 **CYMUNEDAU SY'N GYFEILLGAR I OED** (Tudalennau 37 - 126)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** Y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd i fodloni argymhellion adroddiad “Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio” Archwilio Cymru ac argymell gwelliannau i sicrhau bod Asesiadau o Effaith Integredig yn cael eu cynnal yn fwy cyson yn y Cyngor.

9 **ADRODDIAD ARCHWILIO FFIOEDD GOHIRIEDIG** (Tudalennau 127 - 172)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** Cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ar y cynnydd yn dilyn yr Adroddiad Archwilio Taliadau Gohiriedig.

10 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24** (Tudalennau 173 - 244)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** Bod yr aelodau’n darllen Adroddiad Blynyddol Drafft y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn rhoi adborth ar y cynnwys a ystyriwyd, sy’n cynnwys y datblygiadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a’n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

11 **ADRODDIAD A CHYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD AGC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (TACHWEDD 2023)** (Tudalennau 245 - 288)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** Darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar ganlyniad Archwiliad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru o’r Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd fis Tachwedd 2023, yn cynnwys y cynllun gweithredu sy’n seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw’r cyfarfod yn para’n hirach na dwy awr.***